OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 752 (Cy.102)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2012

Gwnaed - - - -	*7 Mawrth 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 146 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 12 iddo, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2012.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Ebrill 2012 ac mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at—

(a) "personau A" ("*persons A*") yn cyfeirio at bersonau sy'n cael eu cyflogi gan y Bwrdd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sydd wedi cael ac wedi derbyn cyn y dyddiad hwnnw gynnig i gael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;

(b) "personau B" ("*persons B*") yn cyfeirio at bersonau sy'n cael eu cyflogi gan y Bwrdd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sydd wedi cael ac wedi derbyn cyn y dyddiad hwnnw gynnig i gael eu cyflogi gan y Comisiynydd;

(c) "personau C" ("*persons C*") yn cyfeirio at bersonau sy'n cael neu sydd wedi cael eu cyflogi gan y Bwrdd ar unrhyw adeg cyn y dyddiad trosglwyddo ac nad yw eu cyflogaeth yn trosglwyddo i'r Comisiynydd nac i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn;

(**1**) 2011 mccc 1.

(d) "cofnodion" ("*records*") yn cynnwys cofnodion ysgrifenedig a chofnodion sy'n cyfleu gwybodaeth drwy unrhyw ddull arall.

Trosglwyddo Staff

3.—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo bydd personau A yn trosglwyddo i gael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

(2) Ar y dyddiad trosglwyddo bydd personau B yn trosglwyddo i gael eu cyflogi gan y Comisiynydd.

Trosglwyddo, yn gyffredinol, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd

4.—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo caiff yr eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau a bennir yn yr Atodlen ac yr oedd gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu yr oedd y Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad hwnnw, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(2) Yn ddarostyngedig i erthygl 5, ar y dyddiad trosglwyddo caiff pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall yr oedd gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu yr oedd y Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad hwnnw, eu trosglwyddo i'r Comisiynydd.

Hawliau a rhwymedigaethau arall sy'n trosglwyddo etc.

5.—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo caiff yr hawliau a'r rhwymedigaethau o dan gontractau cyflogaeth personau C neu mewn cysylltiad â'r contractau hynny ac yr oedd gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu yr oedd y Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad hwnnw eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(2) Mae unrhyw beth sy'n cael ei wneud cyn y dyddiad trosglwyddo gan y Bwrdd neu mewn perthynas â'r Bwrdd o ran unrhyw berson C neu ei gontract cyflogaeth i'w drin o'r dyddiad hwnnw fel pe byddai wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru neu mewn perthynas â hwy.

Mynediad at gofnodion

6.—(1) Pan fo cofnodion yr oedd y Bwrdd yn berchen arnynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo wedi eu trosglwyddo i'r Comisiynydd o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol—

(a) edrych ar y cofnodion hynny; a

(b) cymryd copïau o'r cofnodion hynny neu unrhyw ran ohonynt, neu caniateir i'r copïau neu'r rhannau hynny gael eu darparu iddynt.

(2) Nid yw pŵer Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1) yn gymwys i gofnodion sy'n ymwneud â chyflogaeth personau B.

(3) Pan fo cofnodion yr oedd y Bwrdd yn berchen arnynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, caiff y Comisiynydd, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol—

(a) edrych ar y cofnodion hynny; a

(b) cymryd copïau o'r cofnodion hynny neu unrhyw ran ohonynt, neu caniateir i'r copïau neu'r rhannau hynny gael eu darparu iddo.

(4) Nid yw pŵer y Comisiynydd o dan baragraff (3) yn gymwys i gofnodion sy'n ymwneud â chyflogaeth personau A neu C.

(5) Rhaid i'r pwerau a roddwyd gan yr erthygl hon gael eu harfer yn ystod oriau gwaith arferol.

Darpariaeth gyffredinol

7. Nid effeithir ar drosglwyddiadau o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, y rhoddir effaith iddynt gan y Gorchymyn hwn, gan unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag y bo) a fyddai fel arall yn atal y trosglwyddiadau hynny neu'n cyfyngu arnynt.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o
7 Mawrth 2012 Weinidogion Cymru